Asesiad Effaith Hawliau Plant

Trosolwg o'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gofalwyr Di-dâl

Mae gofalwyr di-dâl yn gwneud cyfraniad hanfodol at deuluoedd, cymunedau a gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru, ac yn aml maent yn darparu cymorth emosiynol, ymarferol a phersonol sylweddol i'r rhai sy'n dibynnu arnynt. Mae'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gofalwyr Di-dâl yn nodi gweledigaeth glir ar gyfer cydnabod, gwerthfawrogi a chefnogi gofalwyr o bob oed, a sicrhau eu bod yn gallu cael y cymorth sydd ei angen arnynt i fyw bywydau iach a chyflawn ochr yn ochr â'u rolau gofalu. Gan weithio mewn partneriaeth ar draws y sector iechyd, y sector gofal cymdeithasol, y sector addysg a'r trydydd sector, nod y Strategaeth yw creu system gymorth fwy cyson, teg a rhagweithiol sy'n adlewyrchu amrywiaeth profiadau gofalwyr ac yn diogelu eu hawliau a'u gwydnwch, nawr ac yn y dyfodol. Mae'r Strategaeth, sydd wedi'i datblygu drwy ymgysylltu'n helaeth â gofalwyr a'r sefydliadau sy'n eu cynrychioli, yn canolbwyntio ar saith maes â blaenoriaeth:

1. **Cydnabyddiaeth ac ymwybyddiaeth**
2. **Mynediad at wasanaethau**
3. **Gofalwyr ifanc**
4. **Caledi ariannol a chyflogaeth am dâl**
5. **Seibiant**
6. **Iechyd meddwl a llesiant meddyliol**
7. **Gofalwyr a chynllunio gofal**

Mae'r blaenoriaethau hyn yn berthnasol i hawliau plant gan ei bod yn bosibl bod gan ofalwyr ifanc gyfrifoldebau gofalu ym mhob un o feysydd y Strategaeth, nid yn unig o dan y flaenoriaeth benodol i ofalwyr ifanc.

Amcanion y polisi

Mae'r Asesiad Effaith Hawliau Plant hwn yn ystyried sut mae penderfyniadau sy'n ymwneud â'r Strategaeth Genedlaethol ddrafft ar gyfer Gofalwyr Di-dâl yn effeithio ar hawliau a llesiant gofalwyr ifanc (plant a phobl ifanc dan 18 oed) sy'n darparu gofal di-dâl. Wedi'i seilio ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), mae'n adlewyrchu dyletswydd Llywodraeth Cymru i ddiogelu, parchu a hyrwyddo hawliau plant ym mhob agwedd ar ddatblygu polisi.

Gofalwyr ifanc yw'r rhai dan 18 oed sy'n darparu gofal di-dâl i oedolyn neu blentyn anabl y mae angen cymorth arno. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi hawliau clir i ofalwyr o bob oed, gan gynnwys gofalwyr ifanc. O dan y ddeddfwriaeth, ystyr 'gofalwr' yw ‘person sy’n darparu neu’n bwriadu darparu gofal i oedolyn neu blentyn anabl'. Nid yw'r term 'gofalwr ifanc' yn ymddangos yn y ddeddfwriaeth, ond mae'r term 'gofalwr sy'n blentyn' yn ymddangos

ynddi, er nad yw wedi'i gynnwys yn y diffiniadau. Ystyr 'plentyn' yw person dan 18 oed, felly byddai 'plentyn sy'n ofalwr' yn ofalwr dan 18 oed.

Mae gofalwyr ifanc yn aml yn wynebu pwysau a all ddylanwadu ar eu haddysg, eu hiechyd, eu datblygiad a'u cyfleoedd yn y dyfodol. Mae'r Strategaeth yn cydnabod y risgiau hyn ac yn amlinellu camau gweithredu i wella'r broses o nodi gofalwyr ifanc yn gynnar, sicrhau bod cymorth priodol ar gael iddynt, a lleihau'r tebygolrwydd y bydd plant yn ymgymryd â rolau gofalu amhriodol neu ormodol.

Mae'r Asesiad Effaith Hawliau Plant hwn yn asesu'r effaith bosibl ar hawliau plant ac i ba raddau y mae'r Strategaeth yn cryfhau mesurau diogelu a chymorth i ofalwyr ifanc.

Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

Cynhaliwyd amrywiaeth o weithgarwch ymgysylltu cyn ac yn ystod yr ymgynghoriad ffurfiol er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu a mireinio'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gofalwyr Di-dâl. Roedd hyn yn cynnwys:

- gweithgarwch ymgysylltu helaeth â gofalwyr di-dâl ledled Cymru yn ystod haf 2025, gan sicrhau bod profiadau bywyd yn llywio blaenoriaethau a chamau gweithredu'r Strategaeth. Gwnaethom gyfarfod ag 11 grŵp o ofalwyr o wahanol rannau o Gymru, cymunedau ethnig lleiafrifol, gofalwyr anabl, gofalwyr hŷn ac ifanc a gofalwyr o gymunedau eraill. Gwnaethom hefyd gyfarfod â 33 o grwpiau o ofalwyr a sefydliadau gofalwyr lleol/cenedlaethol a grwpiau rhanddeiliaid eraill neu gael cyfraniadau ysgrifenedig ganddynt.
- ymgynghoriad cyhoeddus rhwng mis Chwefror a mis Ebrill 2026. Cafodd Llywodraeth Cymru 130 o ymatebion i'r ymgynghoriad. O blith y rhain, cafwyd 52 o ymatebion gan unigolion a chafwyd 67 o ymatebion ar ran sefydliadau (nid oedd yn hysbys pwy anfonodd y lleill). Casglwyd adborth ychwanegol gan swyddogion Llywodraeth Cymru drwy bedwar gweithdy gyda gofalwyr, yn bersonol ac ar-lein.
- gweithgarwch ymgysylltu uniongyrchol â phlant a phobl ifanc drwy rwydweithiau gofalwyr ifanc a digwyddiadau cenedlaethol, gan gynnwys Bwrdd Cynghori Gofalwyr Ifanc.
- gweithgarwch grŵp llywio yn cynnwys cynrychiolwyr gofalwyr ifanc o sefydliadau gofalwyr di-dâl.

Anogwyd cynrychiolwyr gofalwyr di-dâl i gefnogi trafodaethau â gofalwyr ifanc, gan eu helpu i ddeall y Strategaeth arfaethedig a rhannu eu profiadau, eu barn a'u hawgrymiadau ar ffyrdd y gellid ei chryfhau. Cynhaliwyd grwpiau ffocws wedi'u targedu gyda gofalwyr ifanc hefyd er mwyn casglu adborth strwythuredig gan ystod amrywiol o blant a phobl ifanc ledled Cymru.

Ymgysylltwyd hefyd ag unigolion a sefydliadau sy'n cynrychioli plant a phobl ifanc â nodweddion gwarchodedig er mwyn ceisio eu barn. Roedd hyn yn cynnwys sesiynau pwrpasol a gynhaliwyd yn rhithwir ac wyneb yn wyneb gyda Bwrdd Cynghori Gofalwyr Ifanc, Gofalwyr Ifanc Credu, y Rhwydwaith Proffesiynol Gofalwyr Ifanc a thrwy Gofalwyr Cymru. Roedd y sesiynau'n cynnwys gofalwyr ifanc rhwng 10 a 16 oed ac oedolion ifanc rhwng 16 a 25 oed sy'n ofalwyr, gan eu galluogi i rannu eu profiadau, eu heriau a'u dyheadau. Bu hyn yn gymorth i nodi sut y gallai'r

Strategaeth gydnabod grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn well, mynd i'r afael â rhwystrau i gymryd rhan a chael cymorth, a hyrwyddo canlyniadau tecach i ofalwyr ifanc ag anghenion a phrofiadau gwahanol.

Cafodd gofalwyr ifanc a'r rhai sy'n eu cynrychioli eu cynnwys yn uniongyrchol wrth ddatblygu'r Strategaeth hon, ac roedd eu sylwadau yn ganolog i lywio'r penderfyniad i nodi 'Gofalwyr Ifanc' yn flaenoriaeth annibynnol.

Cafodd gofalwyr ifanc hefyd eu gwahodd i ymateb i'r ymgynghoriad, a chafodd cynrychiolwyr gofalwyr ifanc eu cynnwys yn y gweithgarwch grŵp llywio wrth ddatblygu'r Strategaeth. Helpodd eu barn i lywio ffocws y Strategaeth ar gydnabod gofalwyr ifanc a'u nodi'n gynnar, cymorth mewn addysg, iechyd meddwl a llesiant, trefniadau pontio, seibiant a chyfleoedd i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Ymchwil a data presennol sy'n llywio'r polisi

Mae'r dystiolaeth a ystyriwyd ar gyfer yr asesiad hwn yn dwyn ynghyd ddata cenedlaethol, ymchwil gyhoeddedig, canfyddiadau arolygiadau, tystiolaeth gwaith gwerthuso, adborth a gasglwyd drwy'r ymgynghoriad a gweithgarwch ymgysylltu uniongyrchol â gofalwyr ifanc a'u cynrychiolwyr.

Ffynhonnell	Tystiolaeth
Data Cyfrifiad 2021	Cofnododd Cyfrifiad 2021 tua 310,000 o ofalwyr di-dâl yng Nghymru a thua 8,200 o ofalwyr ifanc di-dâl rhwng 5 a 17 oed, sy'n cyfateb i 1.8% o blant yn y grŵp oedran hwnnw. Mae hyn yn rhoi llinell sylfaen ofynnol, gan fod ymatebwyr i'r ymgynghoriad a sefydliadau gofalwyr wedi tynnu sylw at y ffaith bod llawer o ofalwyr ifanc yn parhau i fod yn gudd neu fod llawer nad ydynt yn hunanddiffinio o hyd. Felly, mae'r Strategaeth yn rhoi blaenoriaeth benodol i ofalwyr ifanc ac yn cryfhau camau i'w nodi'n gynnar, codi ymwybyddiaeth mewn lleoliadau addysg a chymunedol, a chasglu data gwell i ddeall yr angen yn well.
Health outcomes and psychosocial determinants in young carers: a systematic review Bowman Grangel, Aoife et al. The Lancet Public Health, Cyfrol 10, Rhifyn 7, e625 - e639	Canfu'r adolygiad systematig hwn fod gofalwyr ifanc yn wynebu risg fach i gymedrol o iechyd meddwl gwaeth o gymharu â phobl nad ydynt yn ofalwyr, a bod y rhai sy'n darparu gofal dwys yn wynebu effeithiau cryfach. Canfu hefyd fod cysylltiad cymdeithasol a'r amodau y darperir gofal ynddynt yn dylanwadu ar ganlyniadau. Mae'r dystiolaeth hon wedi cryfhau ffocws y Strategaeth ar iechyd meddwl a llesiant, asesu dwyster cyfrifoldebau gofalu yn rheolaidd, atal rolau gofalu amhriodol, a chamau gweithredu i leihau ynysigrwydd drwy ysgolion, gwasanaethau cymunedol a fframwaith NYTH.

Research into the mental health of young carers Dr Becca Lacey, Sefydliad Ymchwil Iechyd y Boblogaeth, St George's, Prifysgol Llundain	Mae ymchwil ar iechyd meddwl gofalwyr ifanc yn nodi lefelau uwch o ofid seicolegol, gan gynnwys gorbryder, iselder a hunan-niwed, yn enwedig os oes ganddynt gyfrifoldebau gofalu hirdymor neu ddwys, neu os ydynt yn darparu gofal personol. Mae'r canfyddiadau'n cefnogi ymrwymiad y Strategaeth i wella ymwybyddiaeth broffesiynol, sicrhau bod gofalwyr ifanc yn cael eu nodi'n gynharach, a chryfhau'r gallu i gael cymorth iechyd meddwl a llesiant amserol a phriodol.
Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phrifysgol Abertawe (2024)	Canfu ymchwil gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phrifysgol Abertawe fod tua 1 o bob 5 unigolyn ifanc rhwng 16 a 22 oed yng Nghymru wedi nodi bod ganddynt gyfrifoldebau gofalu. Roedd gofalwyr ifanc yn llai tebygol o fod mewn addysg llawn amser na'r rhai nad oeddent yn ofalwyr (45% o gymharu â 54%), ac roedd lefelau cyfranogi is yn arbennig o amlwg ymhlith oedolion ifanc 19 i 22 oed a'r rhai a oedd yn byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig. Mae'r dystiolaeth hon wedi llywio pwyslais y Strategaeth ar nodi gofalwyr ifanc mewn lleoliadau addysg, cymorth wrth bontio o addysg bellach i gyflogaeth, a chamau gweithredu i leihau effaith hirdymor gofalu ar gyfleoedd bywyd.
Darpariaeth ar gyfer gofalwyr ifanc mewn ysgolion uwchradd, colegau addysg bellach ac unedau cyfeirio disgyblion ledled Cymru - Estyn 2019	Canfu Estyn fod y ddarpariaeth ar gyfer gofalwyr ifanc mewn ysgolion uwchradd, colegau addysg bellach ac unedau cyfeirio disgyblion yn amrywio. Gall cyfrifoldebau gofalu effeithio ar bresenoldeb, prydlondeb, llesiant a chyrhaeddiad, ac mae lleoliadau sy'n nodi gofalwyr ifanc yn rhagweithiol ac yn darparu cymorth penodol mewn sefyllfa well i leihau rhwystrau. Mae hyn wedi llywio camau gweithredu'r Strategaeth ar ymwybyddiaeth ysgolion a cholegau, hyfforddiant staff, cardiau adnabod i ofalwyr ifanc a chysylltiadau cliriach rhwng darparwyr addysg, awdurdodau lleol a gwasanaethau gofalwyr ifanc.
Ymchwil sy'n seiliedig ar ddata Rhyddid Gwybodaeth gan Gweithredu dros Blant (2025)	Mae ymchwil sy'n seiliedig ar ddata Rhyddid Gwybodaeth gan Gweithredu dros Blant yn tynnu sylw at y risg barhaus nad yw nifer sylweddol o ofalwyr ifanc yn hysbys i wasanaethau statudol, nac yn cael eu cefnogi ganddynt. Mae hyn yn cyd-fynd â'r adborth a gasglwyd drwy'r ymgynghoriad y dylai'r Strategaeth derfynol wneud mwy i gyrraedd gofalwyr ifanc cudd, gan gynnwys y rhai nad ydynt o bosibl yn ystyried eu

	hunain yn ofalwyr neu sy'n wynebu rhwystrau diwylliannol, ieithyddol neu ddigidol. Felly, mae'r Strategaeth wedi'i chryfhau drwy gamau gweithredu ar gydnabyddiaeth system gyfan, allgymorth drwy bartneriaid cymunedol dibynadwy, a llwybrau cliriach i gael asesiad a chymorth.
Gwerthusiad interim gan Brifysgol Bangor (Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, 2025)	Mae'r gwerthusiad interim o'r Cynllun Seibiant Byr yn dangos y gall seibiant byr leihau'r pwysau ar ofalwyr, cefnogi llesiant a chynnig cyfleoedd i orffwys, cysylltu a chymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n gyffredin yn ystod plentyndod. Pwysleisiodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hefyd fod yn rhaid i ofal seibiant a gofal amgen fod yn hyblyg ac yn ddibynadwy, a bod angen iddo fod ar gael ledled Cymru. Mae'r dystiolaeth hon wedi llywio ymrwymiad y Strategaeth i gynnal y Cynllun Seibiant Byr, adolygu bylchau yn y ddarpariaeth gydag awdurdodau lleol a sicrhau bod gofalwyr ifanc yn gallu cael seibiannau ystyrlon o ofalu.
Y Grŵp Hollbleidiol Seneddol ar Ofalwyr Ifanc ac Oedolion Ifanc sy'n Ofalwyr.	Mae tystiolaeth o'r Grŵp Hollbleidiol Seneddol ar Ofalwyr Ifanc ac Oedolion Ifanc sy'n Ofalwyr yn tynnu sylw at bwysigrwydd trefniadau pontio, gan gynnwys o'r ysgol i addysg bellach, hyfforddiant, cyflogaeth ac oedolaeth. Gofynnodd ymatebwyr i'r ymgynghoriad hefyd am gymorth cryfach ar gamau pontio allweddol. Mae hyn wedi llywio camau gweithredu'r Strategaeth ar well gwybodaeth, llais gofalwyr ifanc, cynllunio trefniadau pontio, cysylltiadau ag addysg a chymorth cyflogadwyedd, ac atal cyfrifoldebau gofalu rhag culhau cyfleoedd yn y dyfodol.
Iechyd Cyhoeddus Cymru	Gall data Iechyd Cyhoeddus Cymru / y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion helpu i fonitro llesiant gofalwyr ifanc, eu cysylltiad â'r ysgol a'u hymgysylltiad addysgol dros amser. Pwysleisiodd ymatebwyr i'r ymgynghoriad fod angen data cryfach, monitro canlyniadau a dadansoddi cydraddoldeb fel bod modd mesur gweithredu yn ôl newidiadau ym mhrofiadau bywyd gofalwyr ifanc, nid dim ond drwy lefelau gweithgarwch. Felly, mae'r Strategaeth wedi cryfhau ei dull monitro, gan gynnwys defnyddio tystiolaeth y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion, data asesiadau awdurdodau lleol, data ar y Cerdyn Adnabod i Ofalwyr Ifanc, ac adborth gan ofalwyr ifanc a sefydliadau cynrychioliadol.

Yn ystod yr ymgynghoriad a'r sesiynau ymgysylltu, nododd gofalwyr ifanc yn gyson heriau yn cynnwys diffyg cydnabyddiaeth yn yr ysgol ac mewn gwasanaethau; straen emosiynol, pwysau meddyliol a phryder; llai o gyfranogiad addysgol; gallu cyfyngedig i gael cymorth iechyd meddwl wedi'i deilwra at eu hanghenion; caledi ariannol sy'n effeithio ar eu gallu i ddefnyddio trafnidiaeth, cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a phrynu eitemau hanfodol; pryderon am gyfleoedd addysg a chyflogaeth yn y dyfodol; ac awydd i chwarae mwy o ran wrth lywio gwasanaethau sy'n effeithio arnynt.

Gofalwyr ifanc oedran cynradd ac uwchradd sy'n cydbwyso'r ysgol â chyfrifoldebau gofalu

Tynnodd tystiolaeth a gasglwyd drwy'r ymgynghoriad a'r sesiynau ymgysylltu sylw at y ffaith bod llawer o ofalwyr ifanc yn teimlo nad ydynt yn cael eu cydnabod gan weithwyr proffesiynol a'u bod yn wynebu heriau wrth geisio cydbwyso addysg â chyfrifoldebau gofalu, gan gynnwys colli sesiynau adolygu, gweithgareddau allgyrsiol a chyfleoedd cymdeithasol.

Mae hyn yn gyson â thystiolaeth Estyn ar y ddarpariaeth amrywiol i ofalwyr ifanc mewn ysgolion a cholegau, sy'n dangos y gall cyfrifoldebau gofalu effeithio ar bresenoldeb, prydlondeb, llesiant a chyrhaeddiad os na chaiff gofalwyr ifanc eu nodi a'u cefnogi'n rhagweithiol. Mae data Cyfrifiad 2021 hefyd yn rhoi llinell sylfaen bwysig, gan gofnodi tua 8,200 o ofalwyr ifanc di-dâl rhwng 5 a 17 oed yng Nghymru, gan gydnabod bod hyn yn debygol o danamcangyfrif y nifer gwirioneddol am fod llawer o ofalwyr ifanc yn parhau i fod yn gudd neu fod llawer ohonynt yn dal ddim yn hunanddiffinio. Gyda'i gilydd, mae'r dystiolaeth hon wedi llywio camau gweithredu ar nodi gofalwyr ifanc yn gynharach mewn ysgolion, gwella ymwybyddiaeth staff, enwi pwyntiau cyswllt a defnyddio'r Cerdyn Adnabod i Ofalwyr Ifanc yn ehangach. Disgwylir i'r polisi gael effaith gadarnhaol drwy wella cydnabyddiaeth i ofalwyr ifanc, eu helpu i barhau mewn addysg, gwella eu presenoldeb a'u cyfranogiad, a lleihau'r tebygolrwydd y bydd eu cyfrifoldebau gofalu yn effeithio'n andwyol ar eu llesiant a'u cyrhaeddiad. Fodd bynnag, os bydd anghysondeb y broses weithredu rhwng ysgolion neu ardaloedd lleol yn parhau, gall rhai gofalwyr ifanc barhau i wynebu tarfu ar eu dysgu, lefelau cyfranogi is ym mywyd yr ysgol a chanlyniadau llesiant gwaeth am nad yw eu rôl ofalu yn cael ei nodi na'i chefnogi.

Oedolion ifanc rhwng 16 a 18 oed sy'n ofalwyr sy'n pontio i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth

Mae'r tabl tystiolaeth yn tynnu sylw at ganfyddiadau Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phrifysgol Abertawe sy'n dangos bod gofalwyr ifanc 16 i 22 oed yn llai tebygol o fod mewn addysg llawn amser, ochr yn ochr â thystiolaeth y Grŵp Seneddol Trawsbleidiol sy'n dangos pwysigrwydd cymorth ar gamau pontio allweddol. Yn yr un modd, dangosodd adborth a gasglwyd drwy'r ymgynghoriad fod gofalwyr ifanc yn credu y “bydd eu rolau fel gofalwyr yn cyfyngu ar gyfleoedd addysg a chyflogaeth yn y dyfodol”. Galwodd ymatebwyr hefyd am gymorth cryfach yn ystod cyfnodau pontio, gan gynnwys cysylltiadau cliriach rhwng ysgolion, darparwyr addysg bellach, cymorth cyflogaeth a gwasanaethau gofalwyr. Mae'r dystiolaeth hon wedi llywio ffocws y Strategaeth ar gynllunio trefniadau pontio, cymorth cyflogadwyedd, cysylltiadau cryfach ag addysg bellach ac addysg uwch, a chyfleoedd gwell i gael

gwybodaeth am gymorth ariannol. Yr effaith gadarnhaol a ragwelir yw y gall mwy o oedolion ifanc sy'n ofalwyr gynnal llwybrau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth a chyflawni canlyniadau economaidd a llesiant hirdymor gwell. Fodd bynnag, os bydd cymorth yn parhau i fod yn dameidiog neu'n cael ei ddarparu'n rhy hwyr, gall rhai oedolion ifanc sy'n ofalwyr ymddieithrio o gyfleoedd addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth ar gamau pontio allweddol.

Gofalwyr ifanc anabl a gofalwyr ifanc sy'n cefnogi rhieni neu frodyr a chwiorydd anabl

Mae'r asesiad hwn wedi'i lywio gan dystiolaeth yn y tabl sy'n ymwneud â dwyster cyfrifoldebau gofalu, iechyd meddwl a chynllunio gofal, gan gynnwys tystiolaeth o adolygiad systematig sy'n dangos bod canlyniadau gwaeth yn fwy tebygol os yw'r cyfrifoldebau gofalu yn ddwys neu'n hirdymor. Pwysleisiodd ymatebwyr i'r ymgynghoriad y gall gofalwyr sy'n cefnogi pobl ag anableddau dysgu neu anghenion cymhleth wynebu pwysau ychwanegol ar "gamau pontio mewn bywyd", gan gynnwys wrth bontio rhwng gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion, pan fydd newidiadau mewn addysg neu gyfleoedd dydd, a phan fydd iechyd yn dirywio. Mae'r dystiolaeth hon wedi llywio ymrwymiadau i asesu gofalwyr yn rheolaidd, atal rolau gofalu amhriodol, cynllunio trefniadau pontio gwell a chynllunio gofal cryfach ar gyfer yr unigolyn sy'n derbyn gofal. Disgwylir i'r polisi gael effaith gadarnhaol drwy leihau'r ddibyniaeth ar blant a phobl ifanc i ddarparu lefelau amhriodol o ofal a thrwy wella'r broses o gydlynu cymorth i'r teulu cyfan. Dylai hyn helpu i ddiogelu llesiant, addysg a chyfleoedd plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a hamdden. Fodd bynnag, os yw gwasanaethau anabledd, iechyd meddwl neu ofal cymdeithasol i oedolion yn annigonol neu os oes oedi cyn iddynt gael eu darparu, gall plant barhau i lenwi bylchau mewn gofal, a allai effeithio'n negyddol ar eu llesiant, eu cyrhaeddiad addysgol a'u hamser hamdden.

Gofalwyr ifanc o gymunedau Du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol

Mae'r asesiad hwn yn defnyddio tystiolaeth sy'n ymwneud â gofalwyr ifanc cudd a'r risg nad yw rhai plant a phobl ifanc yn hysbys i wasanaethau. Mae tystiolaeth o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn awgrymu y gall rhai gofalwyr ifanc wynebu rhwystrau diwylliannol, ieithyddol neu sy'n gysylltiedig ag ymddiriedaeth wrth nodi eu bod yn ofalwyr neu gael cymorth. Mae hyn wedi llywio camau gweithredu ar allgymorth wedi'i dargedu, gwybodaeth sy'n briodol yn ddiwylliannol a gweithgarwch ymgysylltu drwy bartneriaid cymunedol dibynadwy. Yr effaith gadarnhaol a ragwelir yw gwell ymwybyddiaeth o hawliau a'r cymorth sydd ar gael, mwy o ofalwyr yn manteisio ar asesiadau a gwasanaethau, a lleihad yn nifer y gofalwyr ifanc sy'n parhau i fod yn gudd. Fodd bynnag, os na ddefnyddir dulliau ymgysylltu a chyfathrebu sy'n briodol yn ddiwylliannol neu sydd wedi'u targedu'n ddigonol, gall rhai gofalwyr ifanc a'u teuluoedd barhau i wynebu anghydraddoldebau o ran cydnabyddiaeth a'r gallu i gael cymorth.

Gofalwyr ifanc sy'n byw mewn tlodi

Mae'r asesiad hwn yn defnyddio tystiolaeth a gasglwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phrifysgol Abertawe sy'n dangos lefelau cyfranogi is mewn addysg lawnamser ymhlith gofalwyr ifanc a mwy o anfantais i'r rhai sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gall caledi ariannol waethygu

effeithiau cyfrifoldebau gofalu, gan gynyddu'r risg o ganlyniadau addysgol, iechyd a llesiant gwaeth. Tynnodd ymatebwyr i'r ymgynghoriad sylw hefyd at effaith pwysau ariannol ar ofalwyr ifanc a'u teuluoedd. Mae'r dystiolaeth hon wedi llywio camau gweithredu ar wneud y gorau o incwm, hawlio budd-daliadau, cymorth ariannol a mesurau y bwriedir iddynt gefnogi gofalwyr ifanc i gymryd rhan mewn addysg. Disgwylir i'r polisi leihau'r straen ariannol ar rai teuluoedd, gwella'r gallu i brynu eitemau hanfodol, defnyddio trafnidiaeth a manteisio ar gyfleoedd dysgu, a chefnogi canlyniadau addysgol gwell. Fodd bynnag, os bydd tlodi ehangach mewn aelwydydd yn parhau, gall cyfrifoldebau gofalu barhau i effeithio ar gyfleoedd a llesiant plant oni bai bod cymorth ariannol yn cael ei ategu gan gymorth ymarferol a seibiant hygyrch.

Defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain a gofalwyr ifanc ag anableddau dysgu

Mae'r asesiad hwn wedi'i lywio gan dystiolaeth yn ymwneud â gofalu cudd, rhwystrau i gael gwybodaeth a'r angen am lwybrau cliriach i gael asesiad a chymorth. Mae tystiolaeth yn awgrymu y gall plant a phobl ifanc wynebu anawsterau wrth geisio cael gwybodaeth a gwasanaethau lle na chaiff anghenion cyfathrebu eu cydnabod neu eu diwallu'n ddigonol. Mae hyn wedi llywio ymrwymiadau i ddarparu gwybodaeth gliriach a mwy hygyrch, gan gynnwys drwy fersiynau yn Iaith Arwyddion Prydain, fersiynau hawdd eu deall, a fformatau cyfathrebu priodol eraill. Yr effaith gadarnhaol a ragwelir yw dealltwriaeth well o hawliau, asesiadau a'r cymorth sydd ar gael, gan alluogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan fwy llawn mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt a chael cymorth yn gynharach. Fodd bynnag, efallai na chaiff y manteision hyn eu gwireddu os na ddarperir fformatau hygyrch yn gyson neu os na fydd gweithwyr proffesiynol yn addasu dulliau cyfathrebu i ddiwallu anghenion unigol, a allai greu rhwystrau i gymryd rhan a chael cymorth.

Gofalwyr ifanc sy'n siarad Cymraeg

Mae'r asesiad hwn wedi'i lywio gan dystiolaeth yn ymwneud â hygyrchedd, gofalu cudd a phwysigrwydd dileu rhwystrau ieithyddol i gael cymorth. Tynnodd adborth a gasglwyd drwy'r ymgynghoriad sylw at bwysigrwydd darparu gwasanaethau a gwybodaeth yn newis iaith plant, pobl ifanc a theuluoedd. Mae hyn wedi llywio pwyslais y Strategaeth ar sicrhau mynediad teg at gymorth a gwybodaeth. Disgwylir i'r polisi gael effaith gadarnhaol drwy alluogi gofalwyr ifanc sy'n siarad Cymraeg i gael gwybodaeth, asesiadau a chymorth yn Gymraeg os byddant yn dewis gwneud hynny, gan helpu i wella dealltwriaeth, ymddiriedaeth a chyfranogiad mewn prosesau gwneud penderfyniadau. Fodd bynnag, gallai darpariaeth Gymraeg anghyson ar draws gwasanaethau neu ardaloedd lleol arwain at allu anghyfartal i gael cymorth a phrofiadau gwaeth i rai gofalwyr ifanc sy'n siarad Cymraeg.

Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith

Gan ddefnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd gennych, pa effaith y mae eich polisi yn debygol o'i chael ar blant a phobl ifanc? Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i liniaru a/neu leihau unrhyw effeithiau negyddol?

Mae effeithiau cadarnhaol tebygol yn cynnwys gwelliant o ran nodi gofalwyr ifanc yn gynnar mewn ysgolion, lleoliadau iechyd a chymunedau; mynediad gwell at wasanaethau, gan gynnwys asesiadau gofalwyr a chynlluniau cymorth; blaenoriaeth benodol i ofalwyr ifanc sy'n gwella hawliau mewn perthynas ag addysg, chwarae,

iechyd, diogelwch a chyfranogiad; mesurau i fynd i'r afael â chaledi ariannol sy'n cefnogi safon byw ddigonol; camau gweithredu ar iechyd meddwl a llesiant, gan gynnwys cymorth sy'n cyd-fynd â fframwaith NYTH; y gallu i gael seibiant, gan sicrhau'r gallu i orffwys a chymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden; ac ymrwymiadau cynllunio gofal i atal disgwyliadau anniogel neu amhriodol mewn perthynas â phlant, yn enwedig wrth ryddhau claf o'r ysbyty.

Mae risgiau posibl yn cynnwys proses weithredu anghyson gan awdurdodau lleol, cyfleoedd anghyfartal i gael seibiant, bylchau mewn data yn cyfyngu ar waith monitro, a rhwystrau diwylliannol, ieithyddol neu ddigidol a allai atal rhai gofalwyr ifanc rhag cael eu nodi neu eu cefnogi. Bydd y risgiau hyn yn cael eu lliniaru drwy wybodaeth genedlaethol gyson, prosesau casglu data gwell, hyfforddiant proffesiynol gwell, allgymorth wedi'i dargedu drwy bartneriaid cymunedol dibynadwy, fformatau hygyrch ac amlieithog, a dull cliriach o fonitro'r ddarpariaeth leol. Bydd y cynllun cyflawni a fydd yn dilyn y Strategaeth Genedlaethol derfynol ar gyfer Gofalwyr Di-dâl yn rhoi rhagor o fanylion am y ffordd y bydd y camau gweithredu hyn yn cael eu rhoi ar waith a'u hadolygu.

- **Sut mae eich cynnig yn gwella neu'n herio hawliau plant, fel y nodir gan erthyglau CCUHP a'i Brotocolau Dewisol? Cyfeiriwch at yr erthyglau i weld pa rai sy'n berthnasol i'ch polisi chi.**

Mae'r Strategaeth yn dangos ymrwymiad cryf i wireddu hawliau plant i ofalwyr ifanc yng Nghymru. Mae'n gwneud y canlynol:

- Nodi gofalwyr ifanc yn flaenoriaeth graidd
- Ymgorffori dulliau seiliedig ar hawliau ar draws gwasanaethau addysg, iechyd a gofal cymdeithasol
- Diogelu rhag rolau gofalu amhriodol
- Cryfhau'r gallu i gael cymorth ariannol, emosiynol ac ymarferol
- Gwella cyfranogiad mewn prosesau gwneud penderfyniadau
- Cydnabod croestoriadedd, gan gynnwys tlodi, ethnigrwydd, anabledd ac anghenion ieithyddol

Mae'r heriau sy'n weddill yn ymwneud yn bennaf â'r broses weithredu: cysondeb wrth nodi gofalwyr ifanc, mynediad teg ledled Cymru, a phrosesau chasglu data cryfach. Drwy sicrhau monitro effeithiol, gellir lliniaru'r risgiau hyn.

Rydym wedi amlinellu ein hystyriaeth o'r effaith mewn perthynas ag erthyglau canlynol CCUHP yn Nhabl 1 isod. Mae'r Strategaeth hefyd yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i hyrwyddo'r Cyfamod Gofalwyr Ifanc, gan ategu CCUHP drwy ddarparu fframwaith ymarferol y gall sefydliadau ei ddefnyddio er mwyn helpu i wireddu hawliau gofalwyr ifanc. Er bod CCUHP yn sefydlu hawliau plant a phobl ifanc, mae'r Cyfamod yn trosi'r hawliau hynny'n ymrwymiadau a chamau gweithredu penodol sydd â'r nod o wella canlyniadau i ofalwyr ifanc, gan gynnwys mynediad at addysg, cyfranogiad mewn prosesau gwneud penderfyniadau, iechyd a llesiant, cymorth, a diogelwch rhag tlodi.

Erthygl CCUHP	Asesiad cynhwysfawr o welliannau a heriau
Erthygl 2 (dim gwahaniaethu) Mae'r Confensiwn yn berthnasol i bob plentyn heb wahaniaethu, beth bynnag fo'i ethnigrwydd, rhyw, crefydd, iaith, galluoedd neu unrhyw statws arall, beth bynnag y mae'n ei feddwl neu'n ei ddweud, a beth bynnag fo'i gefndir teuluol.	Mae'r Strategaeth yn gwella'r hawl hon drwy gydnabod nad yw gofalwyr ifanc yn un grŵp ac y gallant wynebu rhwystrau ychwanegol sy'n gysylltiedig â thlodi, ethnigrwydd, anabledd, iaith, gwledigrwydd, allgáu digidol, oedran a dwyster cyfrifoldebau gofalu. Dylai camau gweithredu ar allgymorth wedi'i dargedu, gwybodaeth hygyrch, darpariaeth Gymraeg, y defnydd o Iaith Arwyddion Prydain a fformatau hawdd eu deall, a phartneriaid cymunedol dibynadwy hyrwyddo tegwch mewn perthynas â chamau nodi, asesiadau a chymorth. Y brif her yw y gall gofalwyr ifanc cudd, gan gynnwys y rhai nad ydynt yn hunanddiffinio neu sy'n wynebu rhwystrau diwylliannol, ieithyddol neu gyfathrebu, gael eu colli o hyd oni bai bod y broses weithredu yn cael ei monitro a'i haddasu'n gyson yn lleol.
Erthygl 3 (lles pennaf y plentyn) Rhaid i les pennaf y plentyn fod yn brif flaenoriaeth ym mhob penderfyniad a gweithred sy'n effeithio ar blant.	Mae'r Strategaeth yn rhoi mwy o ystyriaeth i les pennaf gofalwyr ifanc drwy hyrwyddo camau nodi cynnar, asesiadau gofalwyr a phrosesau cynllunio cymorth, atal rolau gofalu amhriodol a gwella cysylltiadau gwell rhwng gwasanaethau addysg, iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hyn yn cyd-fynd â Sylw Cyffredinol 14, sy'n pwysleisio y dylai lles pennaf y plentyn fod yn brif ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio arno. Yr her yw sicrhau bod lles pennaf y plentyn yn cael ei gymhwyso'n gyson mewn asesiadau lleol, prosesau cynllunio gofal a phrosesau cynllunio ar gyfer rhyddhau claf o'r ysbyty, yn enwedig pan fydd bylchau mewn gwasanaethau i oedolion yn creu pwysau ar blant i ddarparu gofal.
Erthygl 4 (rhoi'r Confensiwn ar waith) Rhaid i lywodraethau wneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau bod pob plentyn yn gallu arfer ei hawliau drwy greu systemau a phasio deddfau sy'n hyrwyddo ac yn diogelu hawliau plant.	Mae'r Strategaeth yn cefnogi'r broses o roi hawliau plant ar waith drwy fframwaith polisi cenedlaethol sy'n cydnabod gofalwyr ifanc fel blaenoriaeth bwrpasol ac yn ymgorffori eu hanghenion ym mhob un o'r saith maes â blaenoriaeth. Mae'n helpu i roi'r hawliau mewn grym yn ymarferol drwy ymwybyddiaeth broffesiynol, asesiadau gwell, gwybodaeth hygyrch, prosesau casglu data a gwaith traws-sector. Yr her fydd trosi polisi cenedlaethol yn ddarpariaeth fesuradwy, yn enwedig lle mae cynnydd yn dibynnu ar awdurdodau lleol, byrddau iechyd, lleoliadau addysg a chapasiti'r trydydd sector.
Erthygl 6 (bywyd, goroesi a datblygu) Mae gan bob plentyn yr hawl i fywyd. Rhaid i lywodraethau wneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau bod plant yn	Mae'r Strategaeth yn gwella hawl gofalwyr ifanc i ddatblygu i'w llawn botensial drwy geisio lleihau effeithiau gofalu ar addysg, llesiant, cyfeillgarwch, hamdden a chyflogaeth yn y dyfodol. Dylai camau gweithredu ar iechyd meddwl, cymorth pontio, seibiannau byr, gwneud y gorau o incwm ac atal rolau gofalu amhriodol gefnogi datblygiad iachach. Yr her yw y gall datblygiad gofalwyr ifanc barhau i gael ei gyfyngu os oes ganddynt

goroesi ac yn datblygu i'w llawn botensial.	gyfrifoldebau gofalu dwys, os oes oedi cyn darparu gwasanaethau i oedolion, neu os nad oes cymorth ar gael yn ddigon cynnar.
Erthygl 12 (parch at farn y plentyn) Mae gan bob plentyn yr hawl i fynegi ei farn, ei deimladau a'i ddymuniadau ym mhob mater sy'n effeithio arno, ac i rywun ystyried ei farn a'i chymryd o ddifrif. Mae'r hawl hon yn berthnasol bob amser, er enghraifft, yn ystod achosion mewnfudo, penderfyniadau tai neu fywyd cartref o ddydd i ddydd y plentyn.	Mae'r Strategaeth yn gwella'r hawl hon am fod gofalwyr ifanc ac oedolion ifanc sy'n ofalwyr wedi cyfrannu drwy sesiynau ymgysylltu pwrpasol, cyfleoedd ymgynghori a chyfranogiad cynrychiolwyr mewn gweithgarwch grŵp llywio. Mae hyn yn adlewyrchu Sylw Cyffredinol 12, sy'n pwysleisio y dylai plant allu mynegi eu barn yn rhydd a chael adborth ar sut mae eu barn wedi dylanwadu ar benderfyniadau. Yr her yw sicrhau bod cyfranogiad yn parhau wrth gyflawni, nid wrth ddatblygu yn unig, a bod gan blant iau, gofalwyr ifanc anabl, siaradwyr Cymraeg a'r rhai o grwpiau wedi'u hymyleiddio lwybrau hygyrch i ddylanwadu ar y broses weithredu.
Erthygl 13 (rhyddid mynegiant) Rhaid i bob plentyn fod yn rhydd i fynegi ei feddyliau a'i farn ac i gael pob math o wybodaeth, cyn belled â bod hynny o fewn terfynau'r gyfraith.	Mae'r Strategaeth yn cefnogi gallu gofalwyr ifanc i fynegi eu barn drwy hyrwyddo ymgysylltiad drwy ysgolion, gwasanaethau gofalwyr ifanc, grwpiau cynrychioliadol a gweithgarwch ymgynghori. Dylai alluogi gofalwyr ifanc i ddisgrifio eu profiadau, codi pryderon a helpu i lywio gwasanaethau sy'n effeithio arnynt. Yr her yw nad yw rhai gofalwyr ifanc o bosibl yn teimlo'n ddiogel neu'n hyderus i siarad yn agored, yn enwedig os ydynt yn poeni am stigma neu ganlyniadau teuluol; bydd lleoliadau dibynadwy, trefniadau cyfrinachedd clir a dulliau ymgysylltu sy'n addas i blant yn fesurau lliniaru pwysig.
Erthygl 17 (y gallu i gael gwybodaeth gan y cyfryngau) Mae gan bob plentyn yr hawl i gael gwybodaeth ddibynadwy o amrywiaeth o ffynonellau, a dylai llywodraethau annog y cyfryngau i ddarparu gwybodaeth y gall plant ei deall. Rhaid i lywodraethau helpu i amddiffyn plant rhag deunyddiau a allai eu niweidio.	Mae'r Strategaeth yn gwella'r gallu i gael gwybodaeth drwy ymrwymiadau i wybodaeth gliriach, hygyrch a chyson yn genedlaethol am hawliau gofalwyr ifanc, asesiadau, cardiau adnabod a chymorth. Dylai gwaith hyrwyddo drwy ysgolion, awdurdodau lleol, lleoliadau iechyd, gwasanaethau gofalwyr ifanc a phartneriaid dibynadwy yn y trydydd sector helpu gofalwyr ifanc i ddeall pa gymorth sydd ar gael. Byddai fersiwn addas i blant o'r Strategaeth a'r deunyddiau ar ganlyniadau yn cryfhau'r erthygl hon ymhellach. Yr her yw sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn fformatau y gall gofalwyr ifanc eu defnyddio, gan gynnwys fersiynau Cymraeg, fersiynau hawdd eu deall a fersiynau yn Iaith Arwyddion Prydain, yn ogystal â fformatau digidol a rhai nad ydynt yn ddigidol, a'i bod yn cyrraedd gofalwyr ifanc cudd.

Erthygl 19 (amddiffyn rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod) Rhaid i lywodraethau wneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn rhag pob math o drais, camdriniaeth, esgeulustod a thriniaeth wael gan eu rhieni neu unrhyw un arall sy'n gofalu amdanynt.	Mae'r Strategaeth yn cryfhau'r amddiffyniad hwn drwy geisio atal gofalwyr ifanc rhag ymgymryd â chyfrifoldebau gofalu amhriodol neu ormodol. Dylai asesiadau o anghenion gofalwyr, prosesau cynllunio gofal gwell, prosesau cynllunio ar gyfer rhyddhau claf o'r ysbyty, ac ymwybyddiaeth broffesiynol nodi risgiau'n gynharach a lleihau'r ddibyniaeth ar blant i lenwi bylchau mewn gofal. Yr her yw y gall ymatebion diogelu a chymorth barhau i amrywio os na fydd gweithwyr proffesiynol yn cydnabod rolau gofalwyr ifanc neu os na chaiff anghenion gofal oedolion neu frodyr a chwiorydd anabl eu diwallu'n brydlon.
Erthygl 24 (iechyd a gwasanaethau iechyd) Mae gan bob plentyn yr hawl i'r iechyd gorau posibl. Rhaid i lywodraethau ddarparu gofal iechyd o ansawdd da, dŵr glân, bwyd maethlon, amgylchedd glân ac addysg ar iechyd a llesiant fel y gall plant aros yn iach. Rhaid i wledydd cyfoethog helpu gwledydd tlawd i gyflawni hyn.	Mae'r Strategaeth yn gwella'r hawl hon drwy gamau gweithredu ar iechyd meddwl a llesiant, cymorth sy'n cyd-fynd â fframwaith NYTH, ymwybyddiaeth broffesiynol well a chysylltiadau gwell rhwng gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg. Mae hefyd yn ymateb i dystiolaeth y gall gofalwyr ifanc wynebu straen, pryder, ynysigrwydd a chanlyniadau iechyd gwaeth. Yr her yw sicrhau bod cymorth yn amserol ac yn gymesur, yn enwedig i ofalwyr ifanc sy'n darparu gofal dwys neu'n cefnogi rhywun â salwch meddwl, anabledd neu anghenion cymhleth.
Erthygl 26 (nawdd cymdeithasol) Mae gan bob plentyn yr hawl i gael budd o nawdd cymdeithasol. Rhaid i lywodraethau ddarparu nawdd cymdeithasol, gan gynnwys cymorth ariannol a budd-daliadau eraill, i deuluoedd sydd angen cymorth. ac Erthygl 27 (safon byw ddigonol) Mae gan bob plentyn yr hawl i safon byw sy'n ddigon da i ddiwallu ei anghenion corfforol a chymdeithasol a	Mae'r Strategaeth yn cefnogi'r hawliau hyn drwy hyrwyddo ffyrdd o wneud y gorau o incwm, budd-daliadau, cyngor ariannol, cymorth fel y Lwfans Cynhaliaeth Addysg, a chymorth ymarferol i ofalwyr a'u teuluoedd. Dylai hyn leihau caledi a all gyfyngu ar addysg, trafnidiaeth, cyfranogiad cymdeithasol a llesiant gofalwyr ifanc. Yr her yw y gall tlodi ehangach, ymwybyddiaeth isel o hawliau a phrosesau cyfeirio lleol anghyson barhau i effeithio ar ofalwyr ifanc oni bai bod gwybodaeth yn rhagweithiol, yn hygyrch ac yn gysylltiedig â chymorth ymarferol.

chefnogi ei ddatblygiad. Rhaid i lywodraethau helpu teuluoedd na allant fforddio darparu hyn.	
Erthygl 28 (hawl i addysg) Mae gan bob plentyn yr hawl i addysg. Rhaid i addysg gynradd fod am ddim a rhaid i fathau gwahanol o addysg uwchradd fod ar gael i bob plentyn. Rhaid i brosesau disgyblu mewn ysgolion barchu urddas plant a'u hawliau. Rhaid i wledydd cyfoethog helpu gwledydd tlawd i gyflawni hyn. ac Erthygl 29 (nodau addysg) Rhaid i addysg feithrin personoliaeth, talentau a galluoedd pob plentyn i'r eithaf. Rhaid iddi annog parch y plentyn at hawliau dynol, yn ogystal â pharch at ei rieni, ei ddiwylliannau ei hun a diwylliannau eraill, a'r amgylchedd.	Mae'r Strategaeth yn gwella'r hawliau hyn drwy hyrwyddo cydnabyddiaeth mewn ysgolion a cholegau, ymwybyddiaeth staff, cardiau adnabod i ofalwyr ifanc, cymorth pontio a chysylltiadau cryfach rhwng darparwyr addysg a gwasanaethau gofalwyr ifanc. Dylai'r camau gweithredu hyn helpu i leihau effaith gofalu ar bresenoldeb, prydlondeb, cyrhaeddiad, cyfranogiad a chyfleoedd yn y dyfodol. Yr her yw y gall cymorth addysg barhau i fod yn anghyson oni bai bod pob lleoliad yn nodi gofalwyr ifanc yn rhagweithiol ac yn darparu cymorth hyblyg, heb stigma.
Erthygl 31 (hamdden, chwarae a diwylliant) Mae gan bob plentyn yr hawl i ymlacio, chwarae a chymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau diwylliannol ac artistig	Mae'r Strategaeth yn gwella'r hawl hon drwy atgyfnerthu cyfrifoldebau awdurdodau lleol mewn perthynas â seibiant, Cynllun Seibiant Byr Llywodraeth Cymru a chydnabyddiaeth ehangach bod angen i ofalwyr ifanc gael amser i ffwrdd o ofalu er mwyn gorffwys a mwynhau cyfeillgarwch, hobïau a phrofiadau sy'n gyffredin yn ystod plentyndod. Yr her yw sicrhau bod seibiant yn ddibynadwy, yn hyblyg, yn briodol i oedran, yn briodol yn ddiwylliannol ac ar gael ledled Cymru, gan gynnwys i ofalwyr ifanc mewn ardaloedd gwledig neu'r rhai sy'n cefnogi pobl ag anghenion cymhleth.
Erthygl 42 (gwybodaeth am hawliau) Rhaid i lywodraethau weithio i sicrhau bod plant ac	Mae'r Strategaeth yn cynnig cyfle i godi ymwybyddiaeth o hawliau plant ac ymrwymiad Llywodraeth Cymru i CCUHP ymhlith gofalwyr ifanc, teuluoedd, gweithwyr proffesiynol a sefydliadau partner. Gellid cryfhau hyn drwy gyfeirio'n

oedolion yn ymwybodol o'r Confensiwn.	benodol at hawliau plant yn y Strategaeth, creu deunyddiau sy'n addas i blant a chynnwys ymwybyddiaeth o hawliau mewn deunydd cyfathrebu a hyfforddiant i weithwyr proffesiynol. Yr her yw sicrhau nad yw hyn yn cael ei drin fel gweithgaredd cyhoeddi untro ond yn cael ei ymgorffori yn y broses weithredu ac mewn gwaith monitro a gweithgarwch ymgysylltu â gofalwyr ifanc.

Blaenoriaethau Polisi a sut maent yn cefnogi hawliau plant a phobl ifanc;

Blaenoriaeth 1: Nodi a Chydnabod

Erthyglau Perthnasol CCUHP: 12, 3, 29, 24

Mae nodi gofalwyr di-dâl yn gynnar ac yn gyson ar draws lleoliadau iechyd, addysg a lleoliadau cymunedol yn hanfodol i sicrhau bod gofalwyr ifanc yn cael eu cydnabod, bod rhywun yn gwrando arnynt, a'u bod yn cael eu cefnogi'n briodol. Dywed llawer o bobl ifanc eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu hanwybyddu, felly mae ymgyrchoedd ymwybyddiaeth cryfach, hyfforddiant proffesiynol a mentrau fel y Cyfamod Gofalwyr Ifanc yn chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau eu bod yn cael eu nodi'n gynt a'u hamddiffyn rhag cael lefelau amhriodol o ofal. Mae cydnabyddiaeth well hefyd yn cynnal hawl plant i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau, gan alluogi sgyrsiau cynharach am eu llesiant, eu haddysg a'u hanghenion diogelu ar draws ysgolion, gwasanaethau gofal sylfaenol, fferyllfeydd ac awdurdodau lleol. Ar yr un pryd, mae'r Strategaeth yn cydnabod y gall arferion nodi anghyson neu ddiwylliannol ansensitif barhau i anwybyddu rhai gofalwyr ifanc, yn enwedig y rhai o gymunedau ethnig lleiafrifol neu'r rhai nad ydynt yn hunanddiffinio; caiff y risg hon ei lliniaru drwy ymrwymiadau i wybodaeth amlieithog sy'n briodol yn ddiwylliannol a dulliau ymgysylltu mwy cynhwysol, gan helpu i sicrhau y caiff pob gofalwr ifanc ei gydnabod a'i gefnogi.

Blaenoriaeth 2: Mynediad at Wasanaethau

Erthyglau Perthnasol CCUHP: 24, 12

Mae gwella'r gallu i gael asesiadau gofalwyr, cynlluniau cymorth a gwybodaeth glir a chyson yn cryfhau hawliau gofalwyr ifanc i gymorth ataliol teg, yn enwedig gan fod llawer yn dal i wynebu rhwystrau fel allgáu digidol, anghenion ieithyddol a diffyg gwybodaeth wedi'i theilwra at eu hamgylchiadau. Mae ymrwymiad y Strategaeth i ddeunyddiau cyson yn genedlaethol, gan gynnwys fformatau hygyrch fel fersiynau yn laith Arwyddion Prydain a fersiynau hawdd eu deall, yn helpu i sicrhau bod gofalwyr ifanc yn gallu deall eu hawliau a'r cymorth sydd ar gael iddynt, tra bod mynediad amserol at wasanaethau i'r unigolyn y maent yn gofalu amdano yn lleihau'r risg y bydd plant yn cael eu gadael i lenwi bylchau mewn darpariaeth statudol neu ymgymryd â lefelau amhriodol o gyfrifoldeb. Ar yr un pryd, mae'r Strategaeth yn cydnabod y gall oedi cyn cael asesiadau a chymorth barhau i effeithio

ar lesiant gofalwyr ifanc a'u gallu i gydbwyso cyfrifoldebau gofalu ag addysg, ac mae'n lliniaru'r risg hon drwy brosesau asesu safonol, prosesau rhannu gwybodaeth gwell, a monitro perfformiad awdurdodau lleol yn barhaus i hyrwyddo mynediad mwy amserol a chyson at gymorth ledled Cymru.

Blaenoriaeth 3: Gofalwyr Ifanc (Blaenoriaeth Benodol)

Erthyglau Perthnasol CCUHP: 12, 24, 26, 27,28, 29, 31

Mae'r flaenoriaeth hon yn cynnig y mesurau cryfaf a mwyaf amrywiol i ddiogelu hawliau plant yn y Strategaeth, gan hyrwyddo hawliau gofalwyr ifanc drwy gydnabod eu profiadau bywyd ac ymgorffori cymorth sy'n seiliedig ar hawliau ar draws gwasanaethau. Mae'n hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r Cyfamod Gofalwyr Ifanc a hawliau pobl ifanc, gan greu mecanweithiau ystyrlon i ofalwyr ifanc lywio gwasanaethau a dylanwadu ar bolisi lleol a chenedlaethol, gan gefnogi eu hawl i gael eu clywed o dan Erthygl 12.

Mae asesiadau rheolaidd yn helpu i sicrhau nad yw plant yn ymgymryd â lefelau amhriodol o gyfrifoldebau gofal, yn unol ag Erthyglau 3 ac 19, a'u bod yn cael cymorth addysgol gwell drwy fwy o gydnabyddiaeth mewn ysgolion, polisïau cyson a hyfforddiant staff, gan atgyfnerthu eu hawl i wireddu eu potensial yn llawn. Mae'r gallu i gael cymorth iechyd meddwl drwy fframwaith NYTH yn cryfhau llesiant emosiynol ac yn lleihau ynysigrwydd, ac mae argaeledd ehangach cardiau adnabod yn galluogi gofalwyr ifanc i lywio ysgolion, fferyllfeydd a gwasanaethau cymunedol yn ddiogel. Yn ogystal, mae camau gweithredu i ehangu cyfleoedd ar gyfer addysg bellach, prentisiaethau a chyflogaeth yn helpu i fynd i'r afael â'r anfantais hirdymor a wynebir gan lawer o ofalwyr ifanc. Er y gallai data anghyflawn gyfyngu ar effeithiolrwydd y mesurau hyn, bydd ymrwymiad y Strategaeth i wella prosesau casglu data a gwybodaeth yn helpu i sicrhau y caiff cymorth ei dargedu'n well ac y daw'n decach dros amser.

Blaenoriaeth 4: Caledi Ariannol a Chyflogaeth am Dâl

Erthyglau Perthnasol CCUHP: 3, 26, 27, 28 &29

Gall gofalwyr ifanc wynebu caledi ariannol oherwydd pwysau o fewn eu cartrefi. Gall gwella'r gallu i gael cymorth i wneud y gorau o incwm a chyngor lles helpu i wneud y gorau o incwm teuluoedd a chefnogi hawl gofalwyr ifanc i safon byw ddigonol, gan gyd-fynd ag amcanion y Strategaeth Tlodi Plant. Mae gwaith wedi'i dargedu i gynyddu'r nifer sy'n hawlio budd-daliadau, yn enwedig ymhlith teuluoedd sy'n wynebu rhwystrau ieithyddol, diwylliannol neu ddigidol, yn helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac yn sicrhau na chaiff gofalwyr ifanc eu heithrio o'r cymorth sydd ar gael. Mae'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA) a chymorth ariannol arall ar gyfer eitemau hanfodol yn diogelu eu gallu i gymryd rhan mewn addysg a gweithgareddau cymdeithasol ymhellach. Fodd bynnag, gall ymwybyddiaeth isel o hawliau ariannol mewn ysgolion, colegau a lleoliadau cymunedol olygu bod rhai gofalwyr ifanc yn parhau i golli allan. Mae'r Strategaeth yn lliniaru'r risg hon drwy ddulliau cyfathrebu cryfach, gweithgarwch codi ymwybyddiaeth wedi'i dargedu, a chydweithio â darparwyr addysg a sefydliadau gofalwyr i sicrhau bod gofalwyr ifanc a'u teuluoedd yn cael gwybodaeth glir a hygyrch am y cymorth y maent yn gymwys i'w gael.

Er bod canlyniadau cyflogaeth am dâl yn canolbwyntio'n bennaf ar ofalwyr sy'n oedolion, mae'r camau gweithredu a amlinellir yn cynnig manteision anuniongyrchol pwysig i ofalwyr ifanc. Mae cefnogi oedolion i aros mewn cyflogaeth am dâl, neu ddychwelyd iddi, yn lleihau pwysau ariannol o fewn aelwydydd ac yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd plant a phobl ifanc yn ysgwyddo cyfrifoldebau gofalu ychwanegol neu amhriodol. Mae hyn, yn ei dro, yn helpu i ddiogelu eu hawliau i addysg, datblygiad personol a hamdden. Mae sicrhau bod asesiadau gofalwyr yn ystyried uchelgeisiau o ran cyflogaeth, a bod trefniadau gofal amgen priodol yn cael eu rhoi ar waith pan fydd rhiant neu warcheidwad yn dychwelyd i'r gwaith, yn atal dyletswyddau gofalu rhag cael eu trosglwyddo i bobl ifanc ymhellach ac yn helpu i ddiogelu eu llesiant a'u cyfleoedd.

Blaenoriaeth 5: Seibiant

Erthyglau Perthnasol CCUHP: 3, 24, 31

Mae gofalwyr ifanc yn pwysleisio'n gyson pa mor hanfodol yw seibiannau byr a gofal seibiant i'w llesiant, gan fod cyfleoedd cynyddol i gael gofal seibiant yn cefnogi eu hiechyd, eu gwydnwch emosiynol a'u hawl i amser hamdden yn uniongyrchol. Mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynnal y Cynllun Seibiant Byr tan 2029 yn darparu sylfaen bwysig i sicrhau y gall gofalwyr ifanc dreulio amser i ffwrdd o'u cyfrifoldebau gofalu, gan ddiogelu profiadau yn ystod plentyndod ac atal diffygiad. Fodd bynnag, os bydd darpariaeth seibiant yn parhau i fod yn anghyson neu'n anaddas, mae'n bosibl na chaiff gofalwyr ifanc seibiannau ystyrlon o hyd, ac mae'r Strategaeth yn mynd i'r afael â'r risg hon drwy ymrwymo i adolygu'r ddarpariaeth bresennol ac ehangu capasiti fel bod pob gofalwr ifanc yn gallu manteisio ar gyfleoedd rheolaidd a dibynadwy i orffwys.

Blaenoriaeth 6: Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol

Erthyglau Perthnasol CCUHP: 12, 24, 27

Mae gofalwyr ifanc yn nodi lefelau uchel o straen, pryder ac ynysigrwydd cymdeithasol yn gyson, sy'n adlewyrchu'r baich emosiynol y gall gofalu ei roi ar blant a phobl ifanc. Felly, mae cryfhau'r gallu i gael cymorth iechyd meddwl drwy fframwaith NYTH yn gam gweithredu pwysig sy'n seiliedig ar hawliau, gan sicrhau y gall gofalwyr ifanc gael cymorth cyfannol, wedi'i arwain gan anghenion, sy'n cydnabod eu hamgylchiadau penodol. Mae gwella dealltwriaeth broffesiynol o anghenion emosiynol a seicolegol gofalwyr ifanc yn helpu i nodi trallod yn gynharach a sicrhau ymatebion mwy effeithiol ar draws gwasanaethau. Yn ogystal, mae cynnwys gofalwyr di-dâl mewn hyfforddiant ar atal hunanladdiad a strategaethau llesiant ehangach yn helpu i sicrhau bod gofalwyr ifanc a all wynebu mwy o risg yn cael eu nodi, eu cyfeirio'n briodol, a'u bod yn cael cynnig ymyriadau amserol wedi'u targedu.

Blaenoriaeth 7: Gofalwyr a chynllunio gofal

Erthyglau Perthnasol CCUHP: 3, 12, 19, 24

Mae cydnabod bod rhai gofalwyr di-dâl yn blant yn hanfodol i sicrhau bod gofalwyr ifanc yn cael eu cynnwys mewn modd ystyrlon mewn asesiadau, gwaith cynllunio

gofal a phrosesau gwneud penderfyniadau ar gyfer yr unigolyn y maent yn gofalu amdano, lle bo hyn yn briodol ac er eu lles pennaf. Mae cryfhau eu cyfranogiad yn cynnal eu hawl i gael eu clywed, yn cefnogi eu lles pennaf ac yn helpu i'w hatal rhag gorfod ymgymryd â rolau gofalu anniogel neu amhriodol. Gall cyfrannu'n gynnar at brosesau cynllunio ar gyfer rhyddhau claf o'r ysbyty ac adolygiadau gofal leihau'r risg y bydd gofalwyr ifanc yn gorfod llenwi bylchau yn y ddarpariaeth statudol. Mae canllawiau clir a chyson ar gyfrinachedd a chydsyniad ar draws byrddau iechyd yn hyrwyddo cyfranogiad diogel a phriodol mewn prosesau cynllunio gofal ymhellach. Ar yr un pryd, mae'r Strategaeth yn cydnabod y gallai ymarfer anghyson ar draws rhanbarthau arwain at lefelau cyfranogi amrywiol ymhlith gofalwyr ifanc. Eir i'r afael â'r risg hon drwy fecanweithiau sicrwydd cryfach, gan gynnwys archwiliadau a fframweithiau monitro, er mwyn helpu i sicrhau mwy o atebolrwydd a dull mwy cyson ledled Cymru.

Cyfathrebu â Phlant a Phobl Ifanc

Os ydych wedi ceisio barn plant a phobl ifanc ar eich cynnig, sut byddwch chi'n rhoi gwybod iddynt am y canlyniad?

Rhoddir gwybod i ofalwyr ifanc am ganlyniadau'r penderfyniad polisi drwy ddeunyddiau ymgynghori hygyrch, crynodebau addas i blant, a chyfathrebu drwy sefydliadau gofalwyr ifanc, ysgolion, rhwydweithiau Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, Bwrdd Cynghori Gofalwyr Ifanc ac Is-grŵp Gofalwyr Ifanc Grŵp Cynghori'r Gweinidog. Dylai deunydd cyfathrebu esbonio'r Strategaeth derfynol yn ogystal â'r ffordd y dylanwadodd barn gofalwyr ifanc arni a'r trefniadau ar gyfer ei chyflawni.

Monitro ac Adolygu

Bydd gwaith monitro yn defnyddio data awdurdodau lleol ar asesiadau gofalwyr ifanc, y Cyfrifiad Gofalwyr di-dâl sy'n cael Asesiad o Anghenion Gofalwr, data ar lesiant ac addysg y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Mewn Ysgolion, data monitro'r Cynllun Seibiannau Byr, dosbarthiad y Cerdyn Adnabod i Ofalwyr Ifanc, ac arolygon ac adborth gan Gofalwyr Cymru, Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru a gofalwyr ifanc eu hunain. Bydd yr Asesiad Effaith Hawliau Plant yn cael ei adolygu'n rheolaidd i asesu effeithiau gwirioneddol, nodi canlyniadau anfwriadol a llywio addasiadau i'r ddarpariaeth.